

## CYNGOR SIR FYNWY

### Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy County Hall, Usk - Remote Attendance Dydd Llun, 4ydd Hydref, 2021, 11.00 am

**PRESENT:** Cynghorydd Sirol: A. Easson, R. Edwards, D. Jones, P. Murphy,  
R. Clark  
  
H. Morgan, P. James

#### SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Nikki Wellington	Rheolwr Cyllid
Gareth Peel	
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

#### YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol: M. Feakins, S.B. Jones

##### 1. Mr. Penri James

Roedd y Cadeirydd wedi croesawu Mr. Penri James i'w gyfarfod cyntaf o Ymddiriedolaeth Waddol Ysgol Fferm Sir Fynwy. Mr. James yw cynrychiolydd Prifysgol Aberystwyth ar yr Ymddiriedolaeth.

##### 2. Datganiadau o Fuddiant.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

##### 3. Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy.

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Gorffennaf 2021 yn gofnod cywir.

##### 4. Ystyried a ddylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes canlynol yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei bod yn ôl pob tebyg yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf. (Amgaeir barn y Swyddog Priodol).

Roeddem wedi cytuno i wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem ganlynol o fusnes yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygir, ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth esempt fel sydd wedi ei ddiffinio ym Mharagraffau 12 a 14 o Ran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf.

## CYNGOR SIR FYNWY

### Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy County Hall, Usk - Remote Attendance Dydd Llun, 4ydd Hydref, 2021, 11.00 am

#### **5. Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc ynghylch ceisiadau a dderbyniwyd yn erbyn Cronfa Ymddiriedolaeth ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2021/22.**

Roeddem wedi ystyried chwe chais a dderbyniwyd gan yr Ymddiriedolaeth Waddol, ac fe'u cyflwynwyd ar ran y Prif Swyddog ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

Penderfynodd yr Ymddiriedolaeth:

- (i) cynnig dyfarniad i bum ymgeisydd, yn amodol ar dderbyn yr anfonebau a thystiolaeth o bresenoldeb;
- (ii) cynnig dyfarniad dros dro i un o'r ymgeiswyr, yn amodol ar dderbyn yr anfonebau a thystiolaeth o bresenoldeb. At hyn, bydd swyddogion Cyllid Cyngor Sir Fynwy yn gofyn am eglurhad gan yr ymgeisydd ynglŷn â sut y mae'n bwriadu gwario'r arian ar y cwrs sydd yn cael ei astudio.

Roedd cyfanswm y swm a ddyfarnwyd i'r myfyrwyr yn y cyfarfod yn cyfateb i £4650.

#### **6. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**

Dydd Gwener, 21ain Ionawr 2021 am 11.00am.